

CDLI2 **Ceredigion**

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd
2018 - 2033**

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Ceredigion
(CDLI2)**

**Adroddiad Sgrinio
y Strategaeth a Ffefrir 2019**



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio drwy e-bost ldp@ceredigion.gov.uk neu dros y ffôn 01545 572123

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd	3
3. Cyfarwyddyd ar Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd	7
4. Methodoleg	8
5. Ymgynghori	14
6. Sgrinio'r Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd	14
7. Materion Allweddol	131
8. Casgliadau	157
Cyfeiriadau.....	159

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion, yn unol â Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae rhan o'r broses hon yn cynnwys gwneud Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar y CDLI i sicrhau bod safleoedd cadwraeth natur rhyngwladol allweddol yn cael eu diogelu ac ni fydd y cynllun yn cael unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol arnynt. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ofyniad cyfreithiol a disgrifir y ddeddfwriaeth hon yn Adran 2.
- 1.2 Mae'r CDLI newydd yn gyfle i gofleidio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae ffocws yn Adran 6 o'r Ddeddf ar wella'r amgylchedd wedi bod yn flaenoriaeth yn yr adolygiad o'r cynlluniau a'r polisiau. Mae polisiau CDLI2 wedi cael eu diwygio er mwyn adlewyrchu'r ffocws hwn.
- 1.3 Mae'r safleoedd Ewropeaidd yng Ngheredigion neu sydd y tu allan i Geredigion ond a gafodd eu nodi fel rhai a allai gael eu heffeithio gan ddatblygu sy'n digwydd yng Ngheredigion, wedi'u rhestru gyda'u nodweddion cymwys. Nodir yr asesiad diweddaraf o'u hamodau priodol a phryd y cafodd yr asesiadau eu cynnal, eu hamcanion cadwraeth a'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar y nodweddion, ac a yw'r CDLI yn debygol o effeithio ar y ffactor hwnnw.
- 1.4 Yn ogystal, mae'r holl safleoedd Ewropeaidd mewn perygl neu eisoes yn dioddef effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol newid hinsawdd, ac mae'r adroddiad sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn cynnwys yr angen i CDLI2 a'i bolisiau datblygol sicrhau eu bod yn briodol er mwyn osgoi effeithiau ychwanegol a chyfrannu at leihau'r effeithiau sy'n bodoli.
- 1.5 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dilyn y cyfarwyddyd a nodir yn *Llawlyfr Asesu Rheoliadau Cynefinoedd* (y cyfeirir ato wedi hyn fel y 'Llawlyfr Asesu Rheoliadau Cynefinoedd'), cyfarwyddyd ar sut i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yng Nghymru y mae'r asesiad hwn yn

seiliedig arno a gynhyrchwyd gan David Tyldesley and Associates a Llywodraeth Cymru (2006), ac sydd wedi'i gynnwys erbyn hyn fel atodiad 6 i TAN 5, Cymdeithas Brenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) (Dodd *et. al.*, 2007) a dyfarniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn achos *People Over Wind* (Achos C-323/17 Cais am ddyfarniad rhagarweiniol, *People Over Wind* a Peter Sweetman v Coillte Teoranta, 12 Ebrill 2018).

- 1.6 Cafodd dyfarniad *People Over Wind* effaith fawr ar fethodoleg yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a gafodd, hyd hynny, ei derbyn yn gyffredinol (a'i mabwysiadu'n gyffredinol gan gyrff statudol allweddol yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys Ceredigion ar gyfer CDLI 2007 -2022, a gafodd ei fabwysiadu yn 2013). Cyn y dyfarniad yr arferion sefydledig oedd y dylai awdurdodau cymwys ystyried y mesurau lliniaru a gafodd eu cynnwys mewn cynllun neu brosiect wrth benderfynu a fyddai'n debygol o gael effaith arwyddocaol. Erbyn hyn mae'r llys wedi dyfarnu bod hyn yn anghywir ac nid yw'n briodol, ar y cam sgrinio, i ystyried mesurau a fwriadwyd i osgoi neu leihau effeithiau niweidiol ar safle Ewropeaidd.
- 1.7 Mae cyfraith achosion wedi mynd ymlaen i sefydlu rhai egwyddorion pwysig mewn perthynas â'r ddibyniaeth ar fesurau lliniaru fel rhan o'r Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd o gynllun (yn hytrach nag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o brosiect, sy'n wahanol). Mae'r rhain yn cynnwys ei bod hi'n dderbyniol mewn egwyddor i gynnwys polisïau o fewn Cynllun Lleol sy'n ddarostyngedig i fodloni rhai amodau. Felly, yn ymarferol, wrth ystyried mesurau lliniaru i lywio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o gynllun, y cwestiwn allweddol i'w ofyn yw a oes modd dibynnu ar y mesurau i warchod safleoedd Ewropeaidd. Wrth ystyried mesurau sy'n benodol i bolisi neu hyd yn oed dyraniad, mae'r pwyslais ar ystyried a all y sawl sy'n gwneud penderfyniad gael ei fodloni'n briodol bod modd gweithredu'r mesurau yn ymarferol. Gallai'r mesurau osod beichiau ychwanegol ar weithredu rhai agweddau ar gynllun, neu hyd yn oed gwneud graddfa cyflenwi rhai elfennau yn amodol ar ymdrech Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd diweddarach. Dyma'r fethodoleg a ddefnyddir trwy'r Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn.

- 1.8 Wedi'i gwblhau bydd 'Adroddiad Sgrinio' polisïau'r CDLI2 Adnau yn amlinellu camau rhagarweiniol y proses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd;
- a. nodi ardaloedd gwarchoddedig;
 - b. casglu data;
 - c. asesu yr effeithiau a gaiff polisïau'r CDLI ar y safleoedd gwarchoddedig hyn, a;
 - d. nodi'r amcanion sy'n bod o gynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill a fyddai, mewn cyfuniad â'r CDLI, yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar unrhyw safle cadwraeth natur rhyngwladol.
- 1.9 Os penderfynir, o ganlyniad i'r ymgynghoriad ar yr adroddiad hwn, bod CDLI2 yn debygol o gael effeithiau negyddol arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd, bydd angen gwneud asesiad mwy manwl (Asesiad Priodol).
- 1.10 Fodd bynnag, mae hwn yn asesiad parhaus ac ar y cam hwn o'r CDLI (y Strategaeth a Ffebrir), mae polisïau penodol wedi cael eu cynnig ond heb eu cytuno'n derfynol eto, ac felly gellir asesu'r polisïau strategol a gyflwynir yn unig. Felly, mae'n bosib nodi lle efallai y bydd angen cael Asesiad Priodol yn unig. Bydd asesu pellach yn parhau wrth i fwy o fanylion gael eu cyhoeddi ac wrth i'r polisïau gael eu llunio.

2. **Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd**

Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd yn eu cyd-destun ehangach

- 2.1 Mae'r CDLI newydd yn gynllun a fydd yn arwain y ffordd y bydd datblygu yn digwydd yn y sir gan ddilyn ymlaen o'r CDLI cyntaf.
- 2.2 Mae'n rhaid cydymffurfio â darnau o ddeddfwriaeth ar wahân:
- a. Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r CDLI
 - b. Mae'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (Yr Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004) yn ei

gwneud hi'n ofynnol i Asesiad Amgylcheddol Strategol gael ei gynnal ar y CDLI

- c. Mae Gwarchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt (Cyfarwyddeb Cynefinoedd) (1992/43/EEC), sy'n cael ei droi'n ddeddfwriaeth y DU gan Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994, yn ei gwneud hi'n ofynnol i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gael ei gwblhau

2.3 Mae'r Asesiad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn asesu cynaliadwyedd y CDLI, ac mae cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006, diweddarwyd gan Lywodraeth Cymru 2015) yn datgan y gellir cwblhau'r rhain ac adrodd arnynt mewn un broses. Canlyniad hyn yw 'Adroddiad Cynaliadwyedd' sy'n nodi'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sy'n debygol o ddeillio o'r CDLI. Mae hefyd yn mesur cynaliadwyedd y CDLI a chaiff ei fonitro dros oes y cynllun o safbwynt yr Asesiad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

2.4 Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ardaloedd allweddol o bwysigrwydd Ewropeaidd ar gyfer cadwraeth natur gael eu gwarchod yn y broses cynllun datblygu. Rhaid i'r adroddiadau ar gyfer y broses hon fod ar wahân i'r Asesiad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, proses a elwir Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, er y bydd llawer o'r data a ddefnyddir yn yr Asesiad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn berthnasol i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Er symlrwydd, yn yr adroddiad hwn cyfeirir at Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, ymgeisydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig a safleoedd Ramsar gyda'i gilydd fel 'safleoedd Ewropeaidd'.

2.5 O fewn proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ceir mecanwaith o'r enw yr Asesiad Priodol. Bydd rhaid i gynlluniau a gynigir a fydd yn cael neu a allai gael effaith negyddol arwyddocaol ar unrhyw safle Ewropeaidd gwblhau Asesiad Priodol ar gyfer unrhyw bolisi neu ddatblygiad a gynigir a allai effeithio ar safle gwarchodedig.

- 2.6 Nod yr Asesiad Priodol yw casglu mwy o wybodaeth am y polisi arfaethedig a phenderfynu a fydd y cynllun, os caiff ei wireddu, yn niweidio safle gwarchoddedig. Os yw'r cynllun yn debygol o gael effaith negyddol arwyddocaol gall y cynllun barhau a chael ei fabwysiadu gan y Cyngor dim ond os yw'r polisi a nodwyd yn cael ei newid fel nad yw'n gallu niweidio'r safle (e.e. os yw lleoliad y datblygiad yn cael ei symud), mae'n cynnwys mesurau lliniaru priodol a fydd yn negyddu unrhyw effeithiau niweidiol, neu os bernir bod y polisi yn cynrychioli datblygiad sydd o fudd cyhoeddus tra phwysig. Yn yr achos olaf bydd Llywodraeth Cymru yn asesu a fydd y cynllun yn cael ei ganiatáu i'w fabwysiadu.
- 2.7 Nod yr adroddiad sgrinio yw nodi unrhyw ddatblygiadau neu amcanion yn y CDLI lle y gallai Asesiad Priodol fod yn ofynnol.

Cyfarwyddeb Cynefinoedd, Confensiwn Ramsar ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd

- 2.8 Y safleoedd Ewropeaidd y cyfeirir atynt uchod, ac sydd felly wedi'u cwmpasu gan yr Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd, yw'r safleoedd hynny a nodir gan y ddeddfwriaeth a'r confensiynau canlynol:
- a. Mae Cyfarwyddeb Ewropeaidd (92/43/EEC) ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwylt (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) yn gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau heblaw adar sydd o bwysigrwydd gwarchod natur Ewropeaidd.
 - b. Mae Cyfarwyddeb yr UE (1979/409/EEC) ar Warchod Adar Gwylt (y Gyfarwyddeb Adar) yn gwarchod rhywogaethau o adar sydd o bwysigrwydd cadwraeth natur Ewropeaidd
 - c. Confensiwn Ramsar (1971) Confensiwn ar Wlypdiroedd o Bwys Rhyngwladol
- 2.9 Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar yn sefydlu rhwydwaith o safleoedd wedi'u dynodi ar sail eu statws ecolegol. Cyfeirir atynt fel safleoedd Natura 2000 neu safleoedd Ewropeaidd ac maent yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac ymgeisydd Ardaloedd

Cadwraeth Arbennig sy'n gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid heblaw adar, ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig sydd wedi'u dynodi i ddiogelu safleoedd adar pwysig.

- 2.10 Mae cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (Atodiad 6 i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio 2009) yn datgan y dylai ardaloedd a ddynodwyd fel gwlypdiroedd sydd o bwys byd-eang o dan Gonfensiwn Ramsar (1971) gael yr un lefel o ddiogelwch ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, ymgeisydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig yn y broses Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.
- 2.11 Mae Erthyglau 6 (3) a 6 (4) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gael ei gynnal ar gyfer pob cynllun. Yn 2007 cafodd hyn ei droi'n gyfraith y DU yn Rhan IV o'r Rheoliadau Cynefinoedd (Gwarchod (Cynefinoedd Naturiol ac ati) (Diwygiedig) (Cymru a Lloegr) 2007), ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i gymhwyso'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i bob cynllun defnydd tir.
- 2.12 Pwrpas yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw asesu effeithiau cynllun defnydd tir mewn cyfuniad ag effeithiau cynlluniau a phrosiectau eraill yn erbyn amcanion cadwraeth unrhyw safle Ewropeaidd (boed a yw'r safle y tu mewn neu'r tu allan i derfyn yr awdurdod lleol). Ar gyfer safleoedd sydd wedi'u dynodi ar sail presenoldeb rhywogaeth arbennig, dylai effaith y cynllun ar y rhywogaeth arbennig honno lle y mae'n digwydd i ffwrdd o'r safle gael ei asesu hefyd. Dylai'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd benderfynu a fyddai polisiau yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar integredd y safle a'i nodweddion. Os yw effeithiau negyddol arwyddocaol yn cael eu nodi, dylid ystyried opsiynau eraill er mwyn osgoi unrhyw effeithiau niweidiol posibl. Mae cwmpas yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dibynnu ar leoliad, maint ac arwyddocâd y cynllun neu'r prosiect a gynigir.

3. Cyfarwyddyd ar Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd

- 3.1 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dilyn y cyfarwyddyd a nodir yn *Llawlyfr Asesu Rheoliadau Cynefinoedd* (y cyfeirir ato wedi hyn fel y 'Llawlyfr Asesu Rheoliadau Cynefinoedd'), cyfarwyddyd ar sut i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yng Nghymru y mae'r asesiad hwn yn seiliedig arno a gynhyrchwyd gan David Tyldesley and Associates a Llywodraeth Cymru (2006), ac sydd wedi'i gynnwys erbyn hyn fel atodiad 6 i TAN 5, Cymdeithas Brenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) (Dodd *et. al.*, 2007) a dyfarniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn achos *People Over Wind* (Achos C-323/17 Cais am ddyfarniad rhagarweiniol, *People Over Wind* a Peter Sweetman v Coillte Teoranta, 12 Ebrill 2018).
- 3.2 O dan y cyfarwyddyd hwn mae proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cwmpasu:
- a. Penderfynu effeithiau arwyddocaol tebygol cynllun datblygu ar safleoedd Ewropeaidd
 - b. Sgrinio pa bolisiâu sydd angen Asesiad Priodol a sut y caiff ei gynnal
 - c. Cwblhau'r Asesiad Priodol
 - d. Cymhwyso 'prawf integredd safle' (i benderfynu effaith y cynllun ar amcanion integredd a chadwraeth safle Ewropeaidd) a phenderfynu a oes gan gynlluniau datblygu neu elfennau ynddynt unrhyw ddatrysiadau eraill a cheir rhesymau o fudd cyhoeddus tra phwysig
- 3.3 Mae cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn datgan bod Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn rhan o broses ailadroddol ac mae angen ei ailystyried ym mhob cam o broses y cynllun yn dibynnu ar natur a graddfa'r newidiadau i'r cynllun.

4. Methodoleg

4.1 Yn unol â'r cyfarwyddyd ac arferion presennol cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, mabwysiadwyd y fethodoleg a ddisgrifiwyd yn Nhabl 1 yn yr adroddiad sgrinio.

Tabl 1. Y Fethodoleg a Fabwysiadwyd ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Cam	Disgrifiad
Cam 1 Nodi Safleoedd Ewropeaidd	<ul style="list-style-type: none"> Nodi safleoedd Ewropeaidd yng Ngheredigion a'r rhai y tu allan i Geredigion a allai gael eu heffeithio'n niweidiol gan y Cynllun Datblygu Lleol
Cam 2 Nodi a choladu gwybodaeth safle	<ul style="list-style-type: none"> Nodi nodweddion y safleoedd hyn, eu statws, yr amcanion cadwraeth a sut mae'r safle yn agored i niwed
Cam 3 Adolygu Polisiâu	<ul style="list-style-type: none"> Nodi effeithiau negyddol posib polisiâu'r CDLI Asesu a fydd y rhain yn cael effaith negyddol ar nodweddion safleoedd Ewropeaidd
Cam 4 Ystyried cynlluniau a rhaglenni eraill	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried, lle y bo'n briodol, cynlluniau a rhaglenni a allai gael 'effeithiau mewn cyfuniad' â CDLI Ceredigion
Cam 5 Asesu'r effeithiau arwyddocaol tebygol	<ul style="list-style-type: none"> Asesu a yw'r effeithiau a nodir yn debygol o fod yn 'arwyddocaol' ac os felly a fydd angen gwneud Asesiad Priodol


Cam 1: Nodi Safleoedd Ewropeaidd

4.2 Y cam cyntaf yn y broses asesu oedd nodi pa safleoedd Ewropeaidd sydd i'w cael yn y sir a pha rai y tu allan i'r sir a allai gael eu heffeithio gan y CDLI.

4.3 Mae haenen GIS MapInfo Cyfoeth Naturiol Cymru o'r holl safleoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig a Ramsar

yng Nghymru yn rhoi gwaelodlin o ba safleoedd Ewropeaidd sydd i'w cael yn y sir (gweler Map 1). I gadarnhau bod y rhestr hon yn gywir, cafodd ei chroesgyfeirio â'r rhestrau ar wefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (www.jncc.gov.uk). Roedd y broses hon wedi ychwanegu Afonydd Cleddau / Cleddau Rivers i'r rhestr o safleoedd Ewropeaidd y dylid eu hystyried yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Fodd bynnag, oherwydd nad yw Ceredigion o fewn ei dalgylch a byddai unrhyw effeithiau arwyddocaol a achosir gan ddatblygu yng Ngheredigion yn annhebygol, mae Ardal Gwarchod Arbennig Afonydd Cleddau / Cleddau Rivers wedi cael ei dileu o restr asesu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Yn ogystal, penderfynwyd ychwanegu Ardal Gwarchod Arbennig Afon Tywi i'r rhestr o safleoedd Ewropeaidd i'w cynnwys yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd oherwydd mae Ceredigion o fewn ei dalgylch. Mae'r holl safleoedd a nodwyd wedi'u rhestru yn Nhabl 2 isod ac i'w gweld ym Map 1. Mae rhagor o fanylion am y safleoedd i'w gweld yn Nhabl 1 yn Atodiad 1.

Map 1. Lleoliad y safleoedd Ewropeaidd a aseswyd yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn



© Hawffraint y Goron. Cedwir pob hawl, Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2009.

Caiff y Map hwn ei ddiweddarau i gynnwys Ardal Cadwraeth Arbennig Gorllewin Cymru Forol, Codydd Gogledd Sir Benfro a Choedydd Derw a Safleoedd Ystumod Meirionnydd i Fap 1

Tabl 2. Safleoedd Ewropeaidd a ddewiswyd i'w hasesu yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer CDLI Ceredigion.

Safle Ewropeaidd	Dynodiad(au) Ewropeaidd	O fewn Ceredigion neu o fewn Ceredigion yn rhannol?
Afon Teifi / River Teifi	ACA	Ie
Bae Ceredigion / Cardigan Bay	ACA	Ie
Coed Cwm Einion	ACA	Ie
Coedydd a Cheunant Rheidol / Rheidol Woods & Gorge	ACA	Ie
Cors Caron	ACA a Ramsar	Ie
Cors Fochno ac Aber Dyfi / Dyfi Estuary	ACA, AGA a Ramsar	Ie
Cwm Doethie – Mynydd Mallaen	ACA	Ie
Elenydd – Mallaen	ACA ac AGA	Ie
Grogwynion	ACA	Ie
Pen Llŷn a'r Sarnau/ Llyn Peninsula and the Sarnau	ACA	Ie
Rhos Llaur Cwrt	ACA	Ie
Rhos Talglas	ACA	Ie
Afon Tywi / River Towy	ACA	Na
Afon Gwy / River Wye	ACA	Na
Coedydd Gogledd Sir Benfro	ACA	Na
Coedydd Derw Meirionnydd a Safleoedd Ystumod	ACA	Na
Gorllewin Cymru Forol / West Wales Marine	ACA	Ie

Cam 2: Nodi a choladu gwybodaeth am y safle

4.4 Daeth y data ar y safleoedd Ewropeaidd yn y rhestr asesu o sawl ffynhonnell:

- a. Roedd manylion ar wefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur am yr hysbysiad ar gyfer pob safle Ewropeaidd.
- b. Roedd ffurflenni hysbysu gwreiddiol Natura 2000 yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am y ffactorau sy'n effeithio ar y safleoedd (gwefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur)

- c. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun yn gallu cynnig llawer o brofiad o ran pa faterion sydd wedi cael effaith arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd yn y blynyddoedd diwethaf.
- d. Mae Datganiadau Rheoli Safle Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi manylion am y diddordeb arbennig, rheolaeth a materion sy'n effeithio ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n gysylltiedig â'r safleoedd Ewropeaidd yng Ngheredigion (wedi'i ddisodli gan Gynlluniau Rheoli Craidd).
- e. Roedd gwaith monitro Cyngor Cefn Gwlad Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig / Ardaloedd Gwarchod Arbennig wedi nodi cyflwr presennol yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r rhesymau pam bod unrhyw safle arbennig mewn cyflwr anffafriol.
- f. Roedd Cynlluniau Rheoli Gofal Craidd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys yr amcanion cadwraeth ac yn rhoi gwybodaeth fwy manwl am gyflwr penodol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig/Ardaloedd Gwarchod Arbennig unigol a'r ffactorau sy'n effeithio arnynt.
- g. Roedd rhaglen Adolygiad o Ganiatadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys Ceredigion yn 2010 – 2011 ac wedi nodi'r materion gyda chaniatadau sy'n effeithio ar safleoedd Ewropeaidd 2011.

4.5 Gan ddefnyddio'r wybodaeth uchod, mae Tabl 1 yn Atodiad 1 yn rhoi manylion am y canlynol:

- a. y safleoedd Ewropeaidd;
- b. sut mae'r safle wedi'i ddynodi;
- c. beth yw ei nodweddion cymwys;
- d. yr asesiad diweddaraf o gyflwr y nodweddion hynny;
- e. y ffactorau sy'n debygol o gael effaith negyddol ar y safleoedd hyn (wedi'u cymryd o ffurflenni Natura 2000, Amcanion Cadwraeth y safle, Datganiadau Rheoli Safle, cynlluniau rheoli, adolygiad o ganiatadau Cyfoeth Naturiol Cymru a gan swyddogion unigol Cyfoeth Naturiol Cymru);
- f. yr Amcanion Cadwraeth; ac

- g. arwyddocâd dylanwad y CDLI ar y ffactorau/elfennau agored i niwed (un tic (√) ar gyfer perthynas minimal neu anuniongyrchol, dau dic (√√) ar gyfer dylanwad cryf a chroes (X) ar gyfer nid oes gan y CDLI unrhyw ddylanwad).

Cam 3: Adolygu polisïau

- 4.6 Mae'r polisïau strategol o Strategaeth a Ffefrir CDLI Ceredigion wedi cael eu hasesu i benderfynu eu heffeithiau tebygol ar y safleoedd Ewropeaidd. Mae'r crynodeb i'w weld yn adran 6 isod yn Nhablau 3 – 16. Mae asesiad mwy manwl i'w weld yn yr Atodiadau.
- 4.7 Mae'r broses hon wedi tynnu sylw at unrhyw bolisïau lle y gall fod angen cynnal Asesiad Priodol a'r materion dan sylw. Mae argymhellion wedi cael eu gwneud ar gyfer y polisïau Rheoli Datblygu a Defnydd Tir i osgoi difrod neu leihau'r effaith ar nodweddion y safle Ewropeaidd.
- 4.8 Yna bydd y broses sgrinio yn mynd rhagddi ar Bolisïau'r CDLI Adnau ac os gwelir o hyd na ellir bod yn sicr na fydd y CDLI yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar unrhyw un neu ragor o'r safleoedd Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad ag unrhyw gynlluniau neu brosiectau eraill, caiff Asesiad Priodol ei gynnal.
- 4.9 Caiff safleoedd datblygu posibl a safleoedd ymgeisiol a nodir yn y CDLI eu hasesu hefyd i weld a allent gael effaith bosibl ar safleoedd Ewropeaidd a nodwyd pan fyddant ar gael.
- 4.10 Ni ddylai proses y CDLI ailadrodd polisi cenedlaethol. Felly, mae'n bosib y gall effeithiau'r cynllun gael eu lleddfu gan bolisïau cenedlaethol. Os mai dyma yw'r achos tynnwyd sylw at hyn. Fodd bynnag, gall fod mesurau lliniaru ychwanegol sy'n cael eu hawgrymu i'w cynnwys ym mholisïau'r CDLI Adnau i ddelio â'r cyd-destun lleol.

Cam 4: Ystyried cynlluniau a rhaglenni eraill

- 4.11 Bydd hyn yn cynnwys ystyried cynlluniau a rhaglenni eraill a allai, mewn cyfuniad â CDLI Ceredigion, gael effaith newidiol bosibl ar safleoedd Ewropeaidd.
- 4.12 Bydd yr adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni yn adroddiad cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei ddefnyddio i nodi unrhyw bapurau y gallai fod â pholisiâu penodol ar gyfer Ceredigion. Caiff y dogfennau hyn eu gwirio a thynnir sylw at unrhyw bolisiâu neu amcanion a allai fod yn gysylltiedig â safle Ewropeaidd. Caiff cynlluniau neu brosiectau pellach sy'n gymwys eu hasesu hefyd.
- 4.13 Mae rhestr ddrafft o'r cynlluniau neu'r prosiectau hynny a gaiff eu hasesu ac a fydd yn cael effaith negyddol bosibl i'w gweld yn y tablau yn adran 6. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn yr Atodiadau.

Cam 5: Asesu'r effeithiau arwyddocaol tebygol

- 4.14 Trwy ddilyn y pedwar cam blaenorol, cafodd effeithiau niweidiol arwyddocaol posibl eu nodi a'u crynhoi yn Nhablau 3 – 19 isod. Mae hefyd yn manylu ble y gallai polisiâu eraill helpu i leddfu'r perygl o effaith negyddol. Mae'r polisiâu strategol a allai barhau i achosi effaith arwyddocaol neu a fydd yn cael effeithiau mewn cyfuniad, yn cael eu nodi fel rhai a allai fod angen Asesiad Priodol. Mae mesurau lliniaru pellach yn cael eu hargymell yn yr adran 'Materion Allweddol'. Pan fydd polisiâu mwy manwl yn cael eu drafftio, sy'n cynnwys yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, cânt eu sgrinio eto er mwyn asesu a yw'r cynllun yn parhau i fod yn debygol o gael effaith negyddol arwyddocaol a chynnal Asesiad Priodol os oes angen.
- 4.15 Mae'r materion allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr asesiadau wedi'u hamlinellu yn Adran 7.

5. Ymgynghori

- 5.1 Roedd Tîm Polisi Cynllunio Ceredigion ac Uwch Ecolegydd Ceredigion wedi cwrdd â chynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, timau Cynllunio a Rheoli Adnoddau Naturiol Ceredigion yn gynnar yn y broses o baratoi'r adolygiad hwn o'r CDLI a'r adroddiad sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn aelod o'r Gweithgor Cynaliadwyedd ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol CDLI Ceredigion. Bydd ymgynghoriad ffurfiol ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dechrau ar gam y Strategaeth a Ffebrir y CDLI.

6. Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

- 6.1 Mae'r safleoedd Ewropeaidd sy'n cael eu hasesu wedi'u rhestru yn Nhabl 2 uchod a dangosir lleoliad y safleoedd hyn ym Map 1.
- 6.2 Mae'r safleoedd Ewropeaidd wedi cael eu hasesu yn erbyn Polisiâu Strategol datblygol y CDLI gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddisgrifir uchod. Mae'r asesiad hwn wedi'i grynhoi isod yn Nhablau 3 – 16. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn yr Atodiadau.

Tabl 3. Crynodeb o'r asesiad o effeithiau negyddol arwyddocaol tebygol Polisiâu Strategol y CDLI a chynlluniau neu brosiectau eraill ar ACA Afon Teifi / River Teifi

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiâu LU a DM i osgoi difrod i nodweddion	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiâu LU a DM i osgoi difrod i nodweddion?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
Colli ochr glannau a chynefin yr afon	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiâu Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiâu hyn eu cadarnhau a'r polisiâu LU a DM eu hysgrifennu.	Asesu pan gaiff y polisiâu eu hysgrifennu	Yn bosibl o effeithiau cronrus, yn enwedig amddiffynfeydd llifogydd a llwybrau cerdded/beicio TAN 15 yn caniatáu rhywfaint o ddatblygu ym mharth llifogydd C yn dibynnu ar rai meini prawf Yn dibynnu ar faint, lleoliad a'r math o ddatblygu	le	Asesu pan gaiff y polisiâu eu hysgrifennu	Yn bosibl o effeithiau cronrus, yn enwedig amddiffynfeydd llifogydd a llwybrau cerdded/beicio TAN 15 yn caniatáu rhywfaint o ddatblygu ym mharth llifogydd C yn dibynnu ar rai meini prawf Yn dibynnu ar faint, lleoliad a'r math o ddatblygu	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiâu eu hysgrifennu

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
Lleihau neu newid yn llif yr afon	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiau hyn eu cadarnhau a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Na, ond angen ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Ie	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl – Angen sicrhau bad tir yn cael ei ddyrannu ar gyfer datblygu i ffwrdd o'r ardaloedd problematig a nodwyd ac ystyried mesurau lliniaru ychwanegol	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
Lleihau ansawdd dŵr	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiau hyn eu cadarnhau a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o ddatblygiadau sydd heb eu cwmpasu gan SDCau ac effeithiau cronrus Yn dibynnu ar faint, lleoliad a'r math o ddatblygu	Ie	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o ddatblygiadau sydd heb eu cwmpasu gan SDCau ac effeithiau cronrus	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
Cynnydd mewn gwaddod crog	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiau hyn eu cadarnhau a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o effeithiau cronrus adeiladu datblygiadau ar lannau afonydd a datblygiadau heb eu cwmpasu gan SDCau TAN 15 yn caniatáu rhywfaint o ddatblygu ym mharth llifogydd C yn dibynnu ar rai meini prawf Yn dibynnu ar faint, lleoliad a'r math o ddatblygu	Ie	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o effeithiau cronrus adeiladu datblygiadau ar lannau afonydd a datblygiadau heb eu cwmpasu gan SDCau TAN 15 yn caniatáu rhywfaint o ddatblygu ym mharth llifogydd C yn dibynnu ar rai meini prawf Yn dibynnu ar faint, lleoliad a'r math o ddatblygu	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
Aflonyddu	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiau hyn eu cadarnhau a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o'r cynnydd yn nifer y cŵn a'r cathod a nifer y bobl sy'n cerdded eu cŵn a gweithgareddau hamdden ar ddŵr	Ie	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o'r cynnydd yn nifer y cŵn a'r cathod a nifer y bobl sy'n cerdded eu cŵn a gweithgareddau hamdden ar ddŵr	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu
Dyddodiad atmosfferig	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael effaith ar	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl oherwydd bod llwythi yn uwch na llwythi critigol nitrogen maethol, ac er na wyddys	Ie	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl oherwydd bod llwythi yn uwch na llwythi critigol nitrogen maethol, ac er na wyddys	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
	safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiau hyn eu cadarnhau a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.		llwythi critigol asideiddio, credir bod y llwythi yn uwch na'r llwythi critigol			llwythi critigol asideiddio, credir bod y llwythi yn uwch na'r llwythi critigol	
Addasiad ffisegol	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o liniaru llifogydd ac effeithiau cronus trafndiaeth, seilwaith, micro-hydro, twristiaeth, marinas ac ati	Ie	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o liniaru llifogydd ac effeithiau cronus trafndiaeth, seilwaith, micro-hydro, twristiaeth, marinas ac ati	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
	erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiau hyn eu cadarnhau a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.						
Cynnydd mewn llifogydd	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiau hyn eu cadarnhau	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o effeithiau cronrus adeiladu datblygiadau ar lannau afonydd ac amddiffynfeydd llifogydd TAN 15 yn caniatáu rhywfaint o ddatblygu ym mharth llifogydd C yn dibynnu ar rai meini prawf	Ie	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o effeithiau cronrus adeiladu datblygiadau ar lannau afonydd ac amddiffynfeydd llifogydd TAN 15 yn caniatáu rhywfaint o ddatblygu ym mharth llifogydd C yn dibynnu ar rai meini prawf	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
	a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.		Yn dibynnu ar faint, lleoliad a'r math o ddatblygu			Yn dibynnu ar faint, lleoliad a'r math o ddatblygu	
Newid hinsawdd	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl, gan gynnwys o effeithiau cronus ac mewn cyfuniad	le	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl, gan gynnwys o effeithiau cronus ac mewn cyfuniad	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
	eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiau hyn eu cadarnhau a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.						
<p>Y cynlluniau a'r rhaglenni sy'n debygol o gael effaith</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 – Llywodraeth Cymru, 2013 a Chynllun Gweithredu Teithio Llesol Cymru – Llywodraeth Cymru, 2016. 2. Ceredigion 2020 – Strategaeth Gymunedol Ceredigion (2013) 3. Cynllun Corfforaethol Ceredigion 2017-2022 4. Cynllun Rheoli Cyrchfan Ceredigion 2012/2020 – Cyngor Sir Ceredigion, 2013. 5. Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Ceredigion – Cyngor Sir Ceredigion, 2014 6. Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023 7. Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol (2019) 8. Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru (2015) 9. Partneriaeth Twf Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013 – 2020 Llywodraeth Cymru 10. Strategaeth Mwyngloddiau Metel Cymru (2008) 11. Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015 – 2020 							

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Nodweddion dylunio wedi'u cynnwys mewn polisiau LU a DM i osgoi difrod i nodweddion?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
<p>12. Cynllun Adfywio Rhanbarthol Canolbarth Cymru 2018 – 2033</p> <p>13. Cynllun Gweithredu Cymru ar Ffonau Symudol, Llywodraeth Cymru, 2017.</p> <p>14. Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth 2013-2020 – Llywodraeth Cymru, 2013.</p> <p>15. Proforma ar gyfer cam 3: Adolygiad o Ganiatadau ACA Afon Teifi (2006)</p> <p>16. Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (Medi 2018)</p> <p>17. Cam 4 – Adolygiad o Ganiatadau, Cynllun Gweithredu Safle ar gyfer ACA Afon Teifi (2008)</p> <p>18. Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)</p> <p>19. Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Teifi (2004) a Diweddariad (2008)</p> <p>20. Cynllun Rheoli Aber Afon Teifi</p> <p>21. Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru 2015 (Diweddariad 2017)</p> <p>22. TraCC Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015 – Wedi'i baratoi ar y cyd gan Gyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Sir Powys, 2015.</p> <p>23. Cynllun Adfer Natur Cymru – Llywodraeth Cymru, 2015.</p> <p>24. Strategaeth Rheoli Gwastraff Ceredigion, Chwefror 2012 (yn cael ei hadolygu)</p> <p>25. Cynllun Rheoli Traethlin 2 Gorllewin Cymru 2012</p> <p>26. Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2015-2021 – Cyfoeth Naturiol Cymru, 2015</p>							

Tabl 4. Crynodeb o'r asesiad o effeithiau negyddol arwyddocaol tebygol Polisiâu Strategol y CDLI a chynlluniau neu brosiectau eraill ar ACA Bae Ceredigion / Cardigan Bay

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Mesurau lliniaru / polisiâu strategol?	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Mesurau lliniaru / polisiâu strategol?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
Colli cynefin	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiâu Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiâu hyn eu cadarnhau a'r polisiâu LU a DM eu hysgrifennu.	Asesu pan gaiff y polisiâu eu hysgrifennu	Yn bosibl o effeithiau cronrus, yn enwedig amddiffynfeydd llifogydd ac estyniadau i farinas/harbws TAN 15 yn caniatáu rhywfaint o ddatblygu ym mharth llifogydd C yn dibynnu ar rai meini prawf Yn dibynnu ar faint, lleoliad a'r math o ddatblygu	le	Asesu pan gaiff y polisiâu eu hysgrifennu	Yn bosibl o effeithiau cronrus, yn enwedig amddiffynfeydd llifogydd ac estyniadau i farinas/harbws TAN 15 yn caniatáu rhywfaint o ddatblygu ym mharth llifogydd C yn dibynnu ar rai meini prawf Yn dibynnu ar faint, lleoliad a'r math o ddatblygu	Ailasesu pan gaiff y polisiâu eu hysgrifennu

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Mesurau lliniaru / polisiau strategol?	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Mesurau lliniaru / polisiau strategol?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
Lleihau ansawdd dŵr a gwaddod	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiau hyn eu cadarnhau a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o effeithiau cronus trwy gynnydd mewn cychod, gollyngiadau ffermydd pysgod a sbwriel o systemau carthffosiaeth ac ymwelwyr i'r traethau Yn dibynnu ar faint, lleoliad a'r math o ddatblygu	le	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o effeithiau cronus trwy gynnydd mewn cychod, gollyngiadau ffermydd pysgod a sbwriel o systemau carthffosiaeth ac ymwelwyr i'r traethau Yn dibynnu ar faint, lleoliad a'r math o ddatblygu	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu
Cynnydd mewn gwaddod crog	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o effeithiau cronus adeiladu datblygiadau ar lannau afonydd a'r arfordir, gweithgareddau hamdden ar ddŵr ac ati	le	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o effeithiau cronus adeiladu datblygiadau ar lannau afonydd a'r arfordir, gweithgareddau	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Mesurau lliniaru / polisiau strategol?	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Mesurau lliniaru / polisiau strategol?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
	hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiau hyn eu cadarnhau a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.		TAN 15 yn caniatáu rhywfaint o ddatblygu ym mharth llifogydd C yn dibynnu ar rai meini prawf Yn dibynnu ar faint, lleoliad a'r math o ddatblygu			hamdden ar ddŵr ac ati TAN 15 yn caniatáu rhywfaint o ddatblygu ym mharth llifogydd C yn dibynnu ar rai meini prawf Yn dibynnu ar faint, lleoliad a'r math o ddatblygu	
Aflonyddu	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiau hyn eu	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o'r cynnydd cronnus gweithgareddau hamdden ar ddŵr	le	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o'r cynnydd cronnus gweithgareddau hamdden ar ddŵr	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Mesurau lliniaru / polisiau strategol?	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Mesurau lliniaru / polisiau strategol?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
	cadarnhau a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.						
Dyddodiad atmosfferig	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiau hyn eu cadarnhau a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl, nid yw llwythi yn uwch na llwythi critigol nitrogen maethol ac asideiddio, er na wyddys y rhain ar gyfer rhai nodweddion. Mae aber afon Teifi 'yn debygol o fod mewn perygl' o nitrogen maethol	le	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl, nid yw llwythi yn uwch na llwythi critigol nitrogen maethol ac asideiddio, er na wyddys y rhain ar gyfer rhai nodweddion. Mae aber afon Teifi 'yn debygol o fod mewn perygl' o nitrogen maethol	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu
Addasiad ffisegol	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o amddiffynfeydd llifogydd a chynlluniau	le	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosibl o amddiffynfeydd llifogydd a chynlluniau	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Mesurau lliniaru / polisiau strategol?	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Mesurau lliniaru / polisiau strategol?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
	effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion pan gaiff y polisiau hyn eu cadarnhau a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.		amddiffyn rhag llifogydd a gwelliannau i farinas/harbwrs sy'n achosi gwasgfa arfordirol			amddiffyn rhag llifogydd a gwelliannau i farinas/harbwrs sy'n achosi gwasgfa arfordirol	
Newid hinsawdd	Mae'n bosibl y gallai pob un o'r Polisiau Strategol gael effaith ar safleoedd Ewropeaidd ac mae angen eu hasesu ymhellach yn erbyn y nodweddion	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosib, gan gynnwys o effeithiau cronus ac mewn cyfuniad	le	Asesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu	Yn bosib, gan gynnwys o effeithiau cronus ac mewn cyfuniad	Yn bosibl – Ailasesu pan gaiff y polisiau eu hysgrifennu

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Mesurau lliniaru / polisiau strategol?	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Mesurau lliniaru / polisiau strategol?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
	pan gaiff y polisiau hyn eu cadarnhau a'r polisiau LU a DM eu hysgrifennu.						
<p>Y cynlluniau a'r rhaglenni sy'n debygol o gael effaith</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 – Llywodraeth Cymru, 2013 a Chynllun Gweithredu Teithio Llesol Cymru – Llywodraeth Cymru, 2016. 2. Cynllun Gweithredu Bae Ceredigion (2007) 3. Cynllun Rheoli Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion (2008) 4. Cynllun Canol Cymru (2007) 5. Strategaeth Newid Hinsawdd Ceredigion ac Amddiffynfa Arfordirol y Borth 6. Ceredigion 2020 – Strategaeth Gymunedol Ceredigion (2013) 7. Cynllun Corfforaethol Ceredigion 2017-2022 8. Cynllun Rheoli Cyrchfan Ceredigion 2012/2020 – Cyngor Sir Ceredigion, 2013 9. Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Ceredigion – Cyngor Sir Ceredigion, 2014 10. Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023 11. Cynllun Rheoli Traethlin Ceredigion (2004) 12. Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol (2019) 13. Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru (2015) 14. Strategaeth Datblygu Economaidd ac Adfywio Llanbedr Pont Steffan 15. Strategaeth Adfywio Gofodol Llandysul a Phont-Tyweli (2007) 16. Rheoli Perygl Llifogydd: Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Gogledd Orllewin Cymru (2007) 17. Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015 – 2020 18. Cynllun Adfywio Rhanbarthol Canolbarth Cymru 2018 – 2033 19. Cynllun Gweithredu Cymru ar Ffonau Symudol, Llywodraeth Cymru, 2017 							

Effeithiau Posibl o Bolisiau Strategol y CDLI	Polisiau Strategol y CDLI o bryder	Mesurau lliniaru / polisiau strategol?	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Mesurau lliniaru / polisiau strategol?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
<p>20. Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth 2013-2020 – Llywodraeth Cymru, 2013</p> <p>21. Proforma ar gyfer cam 3: Adolygiad o Ganiatadau Teifi (2006)</p> <p>22. Cam 4 – Adolygiad o Ganiatadau, Cynllun Gweithredu Safle (2008)</p> <p>23. Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)</p> <p>24. Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Teifi (2004) a Diweddariad (2008)</p> <p>25. Cynllun Rheoli Aber Afon Teifi</p> <p>26. TraCC Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y cyd Canolbarth Cymru 2015 – Wedi'i baratoi ar y cyd gan Gyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Sir Powys, 2015.</p> <p>27. Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru (2007)</p> <p>28. Cynllun Adfer Natur Cymru – Llywodraeth Cymru, 2015</p> <p>29. Strategaeth Rheoli Gwastraff Ceredigion Chwefror 2002</p> <p>30. Strategaeth Twristiaeth Chwaraeon Dŵr (2004)</p> <p>31. Cynllun Rheoli Traethlin 2 Gorllewin Cymru 2012</p> <p>32. Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2015-2021 – Cyfoeth Naturiol Cymru, 2015</p>							

Tabl 5. Crynodeb o'r asesiad o effeithiau negyddol arwyddocaol tebygol Polisiâu Strategol y CDLI a chynlluniau neu brosiectau eraill ar ACA Coed Cwm Einion

Effeithiau Posibl o Bolisiâu Strategol y CDLI	Polisiâu Strategol y CDLI o bryder	Mesurau lliniaru / polisiâu strategol?	Effaith arwyddocaol debygol?	Effaith debygol o gynlluniau a rhaglenni eraill (gweler isod)	Mesurau lliniaru / polisiâu strategol?	Perygl o effeithiau mewn cyfuniad?	Angen Asesiad Priodol?
- 7.30 Mae mwyngloddiau a dyfroedd mwyngloddiau yn wenwynig i ecosystemau afonydd, ac yn cynnwys sawl metel, gan effeithio ar y we fwyd ac ychwanegu at asideiddio oherwydd y pH isel. Mae sawl mwynglawdd segur wedi'i wasgaru ar hyd y sir ac er nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach maent yn parhau i gael effaith ar ansawdd y dŵr o'r dŵr ffo. Mae calchu yn cael ei ddefnyddio mewn rhai ardaloedd i geisio lleddfu'r effeithiau, e.e. afon Teifi. Mae isafonydd afon Gwy a Phen Llŷn a'r Sarnau 'mewn perygl', ac mae rhannau o afon Teifi ac aber Dyfi 'yn debygol o fod mewn perygl'. (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2008e).
- 7.31 Mae llygredd organig, yn nhermau amonia a'r galw am ocsigen biolegol, yn dod o elifiant carthion wedi'u trin yn bennaf. Mae amonia yn wenwynig i bysgod a bywyd dŵr arall, yn dibynnu ar dymheredd a pH y dŵr. Mae'r galw am ocsigen biolegol yn fesur o'r galw sydd gan fater organig biolegol am ocsigen. Po fwyaf yw'r galw am ocsigen biolegol, y lleiaf o ocsigen sydd ar gael, a gall hyn gael effaith fawr ar yr ecosystem. Cafodd afon Teifi ei dosbarthu fel afon 'mewn perygl' o amonia a lefelau galw am ocsigen biolegol mewn nifer o'i dalgylchoedd uchaf gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn 2008. Mae afon Teifi yn parhau 'mewn perygl' fel y nodir gan dargedau Cynllun Rheoli ACA Afon Teifi (Cyfoeth Naturiol Cymru 2017) ar gyfer amonia a lefelau galw am ocsigen biolegol ar gyfer pob adran reoli.
- 7.32 Gall cynnydd mewn gwaddod sy'n ychwanegol i'r lefelau naturiol gael effaith fawr ar ecosystemau afonydd, gan effeithio ar oroesiad pysgod ar bob cam a lleihau ffotosynthesis trwy leihau golau a chotio. Gall gwaddodion gario llygrwyr hefyd megis ffosforws, metelau a chyfansoddion gwenwynig eraill. Gall y rhain gael eu haflonyddu hefyd yn ystod llifogydd. Y prif gyfranwyr at y cynnydd mewn gwaddod crog yw adeiladu ar fasnau afonydd, dŵr ffo coedwigaeth ac amaethyddiaeth ac unrhyw weithgarwch

arall sy'n achosi erydu cyflym, e.e. manau lansio canwau. Cyfrannwr arall yw elifiant carthion wedi'u trin a dŵr ffo arall o'r ffyrdd ac ati, a gweithgareddau hamdden ar ddŵr sy'n corddi'r gwaddod. Cafodd nifer o ddalgylchoedd afon Teifi ac afon Tywi eu dosbarthu fel rhai 'mewn perygl' o waddodion crog gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn 2008 ac mae'n debyg bod y sefyllfa yn parhau.

- 7.33 Trafodir asideiddio yn fwy manwl o dan ansawdd aer. Cyfranwyr ychwanegol at asidedd yw coetiroedd/coedwigaeth a mwyngloddiau metel.
- 7.34 Mae'r broses Adolygiad o Gydsyniadau wedi tynnu sylw at ddau ollyngiad parhaus sydd wedi mynd trwyddo i gam 4 oherwydd gallent gael effaith negyddol ar integredd ACA Afon Teifi (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2007a). Mae hyn oherwydd bod un heb gydymffurfio i raddau bach iawn â safonau ffosffad, ac mae'r llall yn torri safonau ansawdd dŵr y cwrs dŵr sy'n derbyn ar y galw am ocsigen biolegol ac amonia. Gallai'r cyntaf achosi cyfoethogi maeth sy'n effeithio ar ferddyfroedd oligotroffig a mesotroffig. Gallai'r ail fod yn effeithio ar lamprai'r nant, lamprai'r afon a lamprai'r môr, eog Atlantig a'r dyfrgi, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â llygrydd arall oherwydd mae lefelau ocsigen isel yn cyfyngu mudo a dosbarthu ac yn aflonyddu ar weoedd bwyd. Y canlyniadau amgylcheddol o'r asesiad hwn oedd:
- a. Cyrraedd y safon ffosfforws (Ff) cymeradwy yn y cwrs dŵr sy'n derbyn trwy weithredu'n briodol ar bob ffynhonnell o Ff.
 - b. Sicrhau bod Amcanion Ansawdd dŵr (dosbarthiad RE) ar gyfer y galw am ocsigen biolegol ac amonia yn cael eu bodloni yn y cwrs dŵr sy'n derbyn i lawr yr afon o ollyngiad diffygiol (Hood & Potter, 2008).
- 7.35 Cafodd 13 o ollyngiadau ysbeidiol pellach eu dwyn ymlaen i gam 4 a chânt sylw gan gynllun gwella AMP 4 (Asiantaeth yr Amgylchedd, 2007a).
- 7.36 Mae Cynllun Rheoli Tirlun Ceredigion 2 (2013) wedi nodi ardaloedd lle roedd y traethau yn erydu, gan ychwanegu at waddodi, a lle roedd

gollyngiadau brys elifiant stormydd i'r môr. Gellid defnyddio hyn ar gyfradd gynyddol gyda newid hinsawdd.

- 7.37 Y prif gyfranwyr posibl i'r materion rheoli hyn a'r materion ansawdd dŵr eraill a nodwyd yn yr asesiad oedd datblygiadau ar lannau afonydd, yn arbennig amddiffynfeydd llifogydd ac elfen datblygu mentrau adfywio, tynnu dŵr, gollwng elifiant carthion wedi'u trin, elifiant dŵr gwastraff arall, dŵr ffo, dŵr ffo sy'n cynnwys llygredd, datblygu ar fawnogydd, ac adfer neu ddatblygu mwynloddiau metel.
- 7.38 Mae materion dŵr gwastraff a gollyngiadau eraill yn cynnwys elifiannau ffermydd pysgod, dŵr gwastraff o brosesau safleoedd biomas a rhai safleoedd cloddio mwynau. Mae elifiant ffermydd pysgod yn aml yn wastraff nad yw'n addas i'w fwyta gan fodau dynol a hefyd ysgarthion pysgod. Yng Ngheinewydd, tybir bod elifiant o'r fferm bysgod yn gyflenwad bwyd i'r dolffiniaid, ac felly'n cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd honno. Mae effeithiau eraill yn llawer mwy cymhleth. Yn dibynnu ar y maint, y gallu i wasgaru a dwysedd ffermio, ymhlith ffactorau eraill, gall y gwastraff achosi cyfoethogi maeth, newid cyfansoddiad cymuned a chyfoeth rhywogaeth, gan effeithio ar yr ecosystem ehangach o bosibl. Mewn rhai ardaloedd dangoswyd bod ffermydd pysgod morol yn effeithio ar lwyddiant atgenhedlu ysglyfaethwyr benthig oherwydd y crynhoad annaturiol mewn mannau lleol (Inglis and Gust, 2003). Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil ar yr effeithiau. Dylai gwastraff gael ei gadw i'r lleiaf posibl. Gall dŵr gwastraff o safleoedd biomas gael effeithiau cyfoethogi maeth tebyg ar ardaloedd dyfrol. Gall cloddio mwynau ryddhau dŵr sy'n cynnwys gwaddod crog a llygrwyr niweidiol yn aml.
- 7.39 Mae Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru (2015) wedi nodi'r Teifi isaf a'r Rheidol isaf fel ardaloedd sydd mewn perygl parhaus o lifogydd gyda'r dull rheoli llifogydd presennol. Gallai camau i gynnal y perygl llifogydd presennol neu ei wella achosi gwaddodi yn yr ACA. Fodd bynnag, mae'r angen i beidio â chael effaith arwyddocaol ar yr ACA a dynodiadau eraill wedi cael eu hamlygu.

- 7.40 Mae'n bosib y gallai'r Strategaeth Mwyngloddiau Metel (2008), os na chaiff ei gweithredu mewn modd sensitif, arwain at ryddhau metelau i'r afonydd neu'r dŵr daear, gan effeithio ar ACA Afon Teifi, ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, ACA/AGA Elenydd – Mallaen ac ACA Grogwynion. Mae rhai o'r mwyngloddiau hyn wedi cael eu rhestru fel 'materion cydgyfeiriol' lle mae'n bosib y bydd adfer y mwyngloddiau yn cael effaith negyddol ar nodwedd AoDdGA neu ACA. Mewn achosion eraill gallai adfer y mwyngloddion hyn fod o fudd i safle Ewropeaidd ac felly nid oes unrhyw 'faterion cydgyfeiriol'.
- 7.41 Cynlluniau eraill a allai gael effaith ar ansawdd dŵr safleoedd yw'r Cynlluniau Lleoedd newydd er y gallant gynnig gweithiau sy'n cydymffurfio â'r CDLI cyfredol neu newydd yn unig. Tra bo'r CDLI newydd yn cael ei gynhyrchu gall cynlluniau sy'n cydymffurfio â CDLI1 gael eu cychwyn a gallai'r rhain gynyddu gwaddodi mewn afonydd a'r môr o erydu a chylchedu gwaddod, ac mae hefyd yn cynnwys datblygu harbws a allai effeithio ar waddodi yn ystod y cam adeiladu. Gallai hyn hefyd gynyddu llygredd o ollyngiadau cychod, ailgylchredu gwaddod sy'n cynnwys llygredd a sbwriel. Yn ogystal, mae TAN 8 yn annog ynni adnewyddadwy a gallai creu safleoedd biomas effeithio ar asidedd yr ACAau os yw'r coedwigoedd yn cael eu plannu wrth ymyl yr afonydd, a gallai safleoedd micro-hydro effeithio ar waddodi yn ystod y cam adeiladu.
- Mesurau Iliniaru**
- 7.42 O ran elifant carthion, dylai polisiau'r CDLI atal effeithiau negyddol arwyddocaol o ddatblygiadau sydd angen gollwng i ardaloedd dyfrol lle y gwyddys fod problemau, fel y nodir ym mhroses yr adolygiad o ganiatadau neu ddulliau adnabod eraill. Fodd bynnag, os yw datblygiadau'n cael eu cynnig sy'n dymuno gollwng yn uniongyrchol o ardal ddyfrol (wedi'i drin neu beidio) lle y gwyddys nad oes unrhyw broblemau, mae'n bosibl y bydd effeithiau arwyddocaol. Dylai'r datblygiadau hyn, gan gynnwys gweithiau mwynau a datblygiadau eraill heb fod yn rhai adeiladu gyfrif fel 'cynllun neu brosiect' o dan y polisiau yn TAN 5, ac felly cânt eu barnu fesul achos (Tyldesley & Associates, 2008). Dylai dŵr gwastraff a gollyngiadau eraill

megis elifiant ffermydd pysgod a dŵr gwastraff o brosesau safleoedd biomas gael eu cwmpasu'n bennaf gan bolisïau TAN 5.

7.43 Mae dŵr ffo o ddatblygiadau a meysydd parcio cysylltiedig wedi'u cwmpasu bellach o dan bolisi cenedlaethol sy'n golygu bod rhaid i systemau draenio cynaliadwy gael eu cynnwys ym mhob datblygiad. Fodd bynnag, gall fod rhai prosesau o hyd, megis cloddio mwynau, sydd heb eu cwmpasu gan Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) a allai gael effaith a hefyd effeithiau cronus. Mae'r effeithiau yn cynnwys llifogydd ar safleoedd gan dynnu deunyddiau yn ôl i'r ardal ddyfrol ac effeithiau hirdymor o ddŵr ffo a thrwytholch. Unwaith eto, dylai'r rhain gyfrif fel 'cynlluniau neu brosiectau' a chael eu cwmpasu o dan TAN 5.

7.44 Dylai erydu o waith adeiladu ar fanciau afonydd gael eu hosgoi yn bennaf gan TAN 15 sy'n atal datblygu ym mharth llifogydd C oni bai bod rhai meini prawf yn cael eu bodloni. Mae datblygiadau sy'n rhaid, yn ôl eu natur, bod ar lannau afonydd, mewn afonydd neu ar yr arfordir wedi'u heithrio, megis amddiffynfeydd llifogydd, harbws neu ddatblygiadau micro-hydro. Unwaith eto dylai'r cynlluniau hyn gael eu cwmpasu gan bolisïau TAN 5.

7.45 Yr effeithiau eraill ar ansawdd dŵr yw effeithiau aflonyddu gwaddod sy'n digwydd oherwydd gweithgareddau hamdden a chynnydd yn y sbwriel ar draethau. Mewn rhai achosion bydd datblygiadau sy'n achosi cynnydd o'r fath yn dod o dan TAN 5. Fodd bynnag gall fod effeithiau o hyd, yn arbennig o effeithiau cronus.

7.46 ***Mesurau lliniaru pellach a argymhellir a'r canlyniad tebygol***
Er hynny, ni ellir bod yn sicr o Bolisïau Strategol y CDLI na fydd y cynllun yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar un neu ragor o nodweddion safleoedd Ewropeaidd oherwydd materion ansawdd dŵr. Felly, argymhellir y dylai Cyngor Sir Ceredigion gydweithio'n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru i osgoi neilltuo datblygiadau mewn ardaloedd lle ceir problemau posibl a chynnwys mesurau lliniaru mewn polisïau CDLI Adnau. Er enghraifft, dylai datblygu atal, gymaint â phobli, colledion gwaddod o erydu a hefyd atal dŵr ffo o'r

safle yn ystod gwaith adeiladu a phrosesau os yw'n gymwys. Dylai'r datblygiadau hynny sydd am ollwng yn uniongyrchol i ardal ddyfrol (wedi'i drin neu beidio) ddangos sut y maent yn bwriadu cadw'r effaith ar ansawdd dŵr i'r lleiaf posibl – er enghraifft, defnyddio treulio anaerobig. Gall elifiant o ffermydd pysgod gael ei aildefnyddio fel gwrtaith ar gyfer ffermio a gall dŵr gwastraff o gloddio mwynau gael ei aildefnyddio yn dibynnu ar ei ansawdd. Gall safleoedd cloddio mwynau, os caiff ei wneud mewn modd sensitif, gael eu hadfer i fod yn wlypdiroedd gan ddarparu budd bioamrywiaeth i safleoedd (angen ystyried adar a llwybrau hedfan). Mae'n rhaid i safleoedd cloddio mwynau a rheoli gwastraff sicrhau nad oes unrhyw broblemau trwytholch hefyd a bod mesurau yn cael eu cymryd i atal llif sydyn. Ceir prosiectau yn Ewrop ar hyn o bryd sy'n cyfuno gwelliant ecolegol, lleddfu llifogydd a chloddio mwynau. Yn ogystal, bydd rhaid i safleoedd lle y gallai fod cynnydd mewn gweithgareddau hamdden ar ddŵr ddilyn codau ymddygiad, a gallai manau mynediad concriid gael eu darparu i atal erydu'r glannau mewn manau priodol.

- 7.47 O dan Reoliadau Cynefinoedd, mae dyletswydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i asesu effeithiau trwyddedau gollwng presennol ac unrhyw geisiadau newydd er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith ar safleoedd cadwraeth natur sydd o bwysigrwydd rhyngwladol. Felly yn achos polisïau a fydd angen cynnydd mewn gollyngiadau ni ddylai fod gan Asesiad Priodol ar yr amod bod mesurau lliniaru fel yr hyn a awgrymir uchod yn cael eu hystyried. I gadarnhau hyn bydd rhaid ailasesu polisïau, yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, pan fydd y polisïau'n cael eu llunio'n derfynol ar gyfer yr ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau. Bydd rhaid i bolisïau eraill sy'n effeithio ar ansawdd dŵr gynnwys mesurau dylunio hefyd cyn y gellir bod yn sicr na fyddant yn cael effaith negyddol arwyddocaol, er ei fod yn debygol na fydd angen Asesiad Priodol arnynt hefyd.

Effaith Strategaeth a Ffefrir y CDLI a chynlluniau/prosiectau eraill

- 7.48 Caiff effaith y Strategaeth a Ffefrir, Polisïau LU a DM ynghyd ag effeithiau mewn cyfuniad cynlluniau a phrosiectau eraill eu hasesu yn y cam nesaf.

Bydd rhaid ystyried Asesiad Priodol pan gytunir ar y Strategaeth a Ffefrir, a phan gadarnheir y polisiau LU a DM ac ar Derfynau Aneddiadau a Dyranïadau arfaethedig.

- 7.49 O dan Reoliadau Cynefinoedd, mae dyletswydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i asesu effeithiau trwyddedau gollwng presennol ac unrhyw geisiadau newydd er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith ar safleoedd cadwraeth natur sydd o bwysigrwydd rhyngwladol. Felly yn achos polisiau a fydd angen cynnydd mewn gollyngiadau ni ddylai fod angen Asesiad Priodol ar yr amod bod dylunio yn sicrhau nad oes unrhyw effaith. Bydd angen ailasesu hyn pan gaiff polisiau penodol eu hysgrifennu i gadarnhau hyn. Bydd rhaid i bolisiau eraill sy'n effeithio ar ansawdd dŵr gynnwys mesurau dylunio hefyd fel y rhai a awgrymir cyn y gellir bod yn sicr na fyddant yn cael effaith negyddol arwyddocaol, er ei fod yn debygol na fydd angen Asesiad Priodol arnynt hefyd.

Hawlio Tir a Cholli Strwythur Tirwedd

- 7.50 Mae'n bosib y gallai Strategaeth a Ffefrir y CDLI arwain at golli rhannau o safleoedd Ewropeaidd neu dir sydd ar neu wrth ymyl terfyn safle sy'n berthnasol i brosesau naturiol y safle neu'r nodwedd.
- 7.51 Gall datblygu o fewn safle Ewropeaidd arwain at golled uniongyrchol o ardal o nodweddion cynefin y mae'r safle wedi'i ddynodi ar eu sail o'r ôl troed datblygu, ond hefyd unrhyw seilwaith sy'n gysylltiedig ag ef, e.e. colli rhostiroedd sych Ewropeaidd yn Elenydd-Mallaen i fferm wynt. Gall hefyd gael effaith ar unrhyw rywogaethau y mae'r safle wedi'i ddynodi ar eu sail, hyd yn oed os nad yw'r cynefin wedi'i effeithio, sy'n dibynnu ar y cynefin hwnnw ar gyfer bwydo, bridio, cysgod neu symudiad, e.e. rhwystr corfforol a achosir gan gored sy'n atal pysgod mudol rhag mudo.
- 7.52 Fel arall, gall datblygiad nad yw'n arwain at golled uniongyrchol o ardal neu nodwedd barhau i gael effaith o'r addasiadau sy'n effeithio ar brosesau'r ecosystem. Er enghraifft, gall amddiffynfeydd llifogydd ar yr arfordir fod yn

rhwystr i fudo tua'r tir naturiol o gynefinoedd traethlin mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr, sy'n arwain at wasgfa arfordirol.

- 7.53 Nid yw'r effeithiau hyn yn digwydd o ddatblygu ar y safle yn unig. Er enghraifft, bydd datblygu ar derfyn cyforgors yn gofyn am ddraeniad, a gall hyn effeithio ar hydroleg y gors, gan gynyddu'r perygl o erydu a gwneud y terfyn yn fwy serth, gan gyflymu'r effeithiau ymhellach. Yn ogystal, ar gyfer Rhos Talglas a Rhos Llawr Cwrt, gallai colli cynefin addas sydd ar gael o fewn yr ardal gyfagos i'r safleoedd sy'n gallu cynnal gloynnod byw brith y gors arwain at golli'r rhywogaeth hon sy'n sail i ddynodiad y safleoedd hyn.
- 7.54 Effaith fawr arall yw addasu'r afonydd, e.e. amddiffynfeydd llifogydd, creu sianeli a micro-hydro, a allai arwain at newid llifoedd a phatrymau gwaddodi'r afon. Gallai hyn effeithio ar nodweddion y safle gan gynnwys darnio cynefinoedd ar gyfer dyfrgwn. Yn ogystal, gall tynnu dŵr arwain at golli cynefin ar gyfer lamprai amoset trwy leihau'r ardal wlyb mewn dyfroedd croyw a sychu'r corydd sy'n arwain at gyflymu erydu. Hefyd, mae posibilrwydd y bydd ffermydd gwynt yn effeithio ar adar, yn arbennig adar esgynnol (Lucas, Janss & Ferrer, 2004 a Barrios & Rodríguez, 2004).
- 7.55 Mae nifer o gynefinoedd y safleoedd Ewropeaidd eisoes mewn cyflwr anffafriol, felly gallai unrhyw golli cynefin gael effaith negyddol arwyddocaol.
- 7.56 Mae Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Drafft Afonydd Sir Benfro a Cheredigion Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (2008) yn nodi afon Teifi isaf fel ardal lle y disgwylir i'r perygl o lifogydd gynyddu'n arwyddocaol yn y dyfodol, yn ogystal â chynnydd yn nyfnder llifogydd, gyda'r dulliau rheoli llifogydd presennol. Felly, bydd angen gweithredu ymhellach i gynnal y perygl llifogydd presennol. Nid yw'n glir a yw'r camau gweithredu hyn yn cynnwys amddiffynfeydd llifogydd, fodd bynnag, mae'r angen i beidio â chael effaith arwyddocaol ar yr ACA a dynodiadau eraill wedi cael eu hamlygu. Ni ddisgwylir i afon Teifi uchaf gynyddu'n sylweddol o ran perygl llifogydd.

- 7.57 Er y disgwylir i'r perygl llifogydd gynyddu'n sylweddol yn yr Afonydd Arfordirol Gogleddol, mae mwy na tri chwarter o'r boblogaeth yn yr ardal hon yn byw yn Aberaeron ac Aberystwyth. Felly yr opsiwn i'w ddewis mae'n debyg yw peidio â darparu amddiffynfeydd llifogydd newydd neu uwch.
- 7.58 Yn ôl Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (2015), "Mae'r perygl o lifogydd yn amrywio trwy ddalgyllch Meirionnydd gyda'r perygl mwyaf yn y Borth a'r iseldiroedd arfordirol." Mae'r perygl o lifogydd yn y Borth i'w briodoli i donnau'n gorlifo ar lannau afon Leri yn ystod llifogydd difrifol. Mae posibilrwydd y gallai gweithredu i wella'r amddiffynfeydd llifogydd presennol effeithio ar Gors Fochno yn arbennig. Fodd bynnag, un o amcanion y cynllun yw diogelu a gwella safleoedd a warchodir yn rhyngwladol a datblygu strategaeth i weld sut y gellir gwarchod y Borth a Chors Fochno.
- 7.59 Bydd cyfuniad o Bolisïau'r CDLI a pholisïau yn TAN 5 a TAN 15 yn helpu i leihau'r effeithiau hyn, yn dibynnu ar y math o gynefin. Fodd bynnag, gall fod effeithiau cronrus ac mewn cyfuniad o hyd, yn enwedig o Gynllun Datblygu Lleol/Cynllun Datblygu Trefol awdurdodau eraill.
- 7.60 Felly argymhellir bod Cyngor Sir Ceredigion yn cydweithio'n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau na fydd dyraniadau yn arwain at gollu cynefin a fydd yn effeithio ar nodweddion safleoedd Ewropeaidd. Er enghraifft, gellid nodi cynefin addas sydd ar gael o fewn 5 km o Ros Talglas a Rhos Llwr Cwrt a'i osgoi (Devon Wildlife Trust, 2005 a Chynllun Rheoli Craidd Rhos Talglas, yn parhau). Gallai'r rhain ffurfio rhan o'r dynodiadau Safle o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur. Gallai tir sydd y math cywir o gynefin ond y byddai angen ei wella i fod yn gynefin 'addas' i gynnal metaboblogaethau gael ei nodi hefyd, a gallai ei reoli i statws 'addas' fod yn amod o ddatblygu'r tir hwnnw. Hefyd, gellid creu clustogfa sy'n gwarchod corysdd a chynefinoedd eraill sy'n sensitif i newidiadau hydrolegol.
- 7.61 Mae angen i bolisïau gynnwys cyfyngiadau datblygu i liniaru yn erbyn effeithiau ar gyfer cynefinoedd allweddol, e.e. gwlypdiroedd, cyrsiau dŵr.

Gall fod cyfleoedd ar gyfer adfer neu wella cynefinoedd glannau afon ar afon Teifi lle mae datblygiad arfaethedig priodol ar lannau'r afon, er enghraifft, mewn ardaloedd adfywio, a gellir osgoi neu leihau effeithiau negyddol posibl heblaw colli glannau'r afon. Gall y rhain fod yn ardaloedd arbennig lle maent yn ceisio adfer neu wella, fodd bynnag, bydd rhaid gwneud gwaith pellach i asesu hyn fel posibilrwydd a nodi safleoedd ymgeisiol posibl.

- 7.62 Gyda'r mesurau lliniaru uchod wedi'u cynnwys, mae'n debyg na fydd y polisïau penodol yng Nghynllun Adnau y CDLI yn cael effaith negyddol sylweddol ar safleoedd, yn enwedig gan nad oes unrhyw aneddiadau gan nifer o'r safleoedd ar eu terfynau. Fodd bynnag, bydd rhaid i'r polisïau gael eu hailasesu pan fyddant wedi'u hysgrifennu er mwyn cadarnhau hyn.

Effaith Strategaeth a Ffefrir y CDLI, Mesurau Lliniaru a chynlluniau/prosiectau eraill

- 7.63 Caiff effaith y Strategaeth a Ffefrir, Polisïau LU a DM ynghyd ag effeithiau mewn cyfuniad cynlluniau a phrosiectau eraill eu hasesu yn y cam nesaf.

Gweithgareddau hamdden

Statws presennol

- 7.64 Mae'n bosib y gallai gweithgareddau hamdden ar dir neu ddŵr aflonyddu neu niweidio sawl un o'r nodweddion sy'n sail i ddynodiad safleoedd Ewropeaidd. Y rheswm am hyn yw sŵn, erydu, llygredd, gwaddodi, sathru a phresenoldeb (gan gynnwys cŵn sy'n gadael eu harogl).
- 7.65 Ar hyn o bryd, tybir bod 71% o gyfanswm hyd afonydd yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau hamdden ar ddŵr, er mai dim ond 4% o'r hyd sydd â hawliau mordwyo, ac mae 2% wedi'i gwmpasu gan gytundebau mynediad i ganŵau peilot. Mae hawliau pysgota pysgod gêm gan y mwyafrif o afon Teifi, ond dim ond darn bach sydd â hawliau mordwyo (aber Teifi) a hawliau mynediad canŵio (Llandysul ac Aber Teifi). Yn ogystal, mae 59% o ddyfroedd amgaeedig yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau hamdden ar ddŵr ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes

unrhyw ardaloedd mewndirol ar gyfer hwylio a hwylyfyrddio yng Ngheredigion. Mae'r arfordir a'r aberoedd yn cael eu defnyddio ar gyfer ystod eang o weithgareddau (20+ ar yr arfordir, 15+ yn yr aberoedd) gan gynnwys nofio, hwylio, pysgota, syrffio, criwsio a defnyddio cychod personol). Mae oddeutu 97-98% o'r dyfroedd arfordirol, aberoedd a chamlesi yng Nghymru yn cael eu defnyddio gan o leiaf un gweithgaredd hamdden ar ddŵr (Prifysgol Brighton, 2008).

- 7.66 Mae Prosiect Peilot Cerbydau Adloniadol Mynyddoedd Cambria wedi tynnu sylw at y broblem o yrru oddi ar y ffordd gyfreithiol ac anghyfreithlon ym Mynyddoedd Cambria a'r angen i reoli rhwydwaith sy'n cynnal cydbwysedd rhwng y gofyniad am lwybrau ar gyfer y gweithgaredd hwn a'r effaith ar Fynyddoedd Cambria, gan gynnwys treftadaeth naturiol, treftadaeth archeolegol, lleoliad anghysbell ac addasrwydd yr wyneb. Amcangyfrifwyd bod 38% o draffig cerbydau modur yn rhai adloniadol. Cafodd darn 609km ei arolygu y tybir ei fod yn ffurfio'r rhwydwaith presennol, gan gynnwys traciau dros sawl safle Ewropeaidd. Mae'r rhwydwaith rheoledig posibl a gynigir yn mesur oddeutu 173km, fodd bynnag tybir y bydd yn llawer llai. Mae'n dal i gynnwys ardaloedd dros y safleoedd Ewropeaidd.
- 7.67 Ceir dros 2500km o hawliau tramwy yng Ngheredigion a rhai ardaloedd o 'fynediad agored' (dros 25,000 hectar) sy'n cynnwys ardaloedd sydd ar neu wrth ochr y rhan fwyaf o'r safleoedd Ewropeaidd yng Ngheredigion. Yng Nghymru, mae oddeutu 51% o bobl yn cerdded am bleser, gydag oddeutu 33% o ymweliadau â chefn gwlad ar gyfer cerdded, cerdded yn y mynyddoedd a chrwydro (Cyngor Sir Ceredigion 2018).
- 7.68 Mae gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored a thwristiaeth yn arbennig yn hanfodol i fywyd Ceredigion a dylai pobl gael eu hannog lle'n bosibl i fynd allan i gefn gwald a mwynau ein hamgylchedd. Fodd bynnag, ceir achosion pan all hamdden a thwristiaeth niweidio integreidd safleoedd Ewropeaidd ac felly rhaid cynnal cydbwysedd. Mae cynnydd mewn tai a'r economi yn debygol o gynyddu gweithgareddau hamdden a thwristiaeth a

- chreu lleoedd newydd o bosib ar ei gyfer. Cafodd rhai gweithgareddau hamdden eu nodi yn yr asesiadau fel rhai a allai gael effaith negyddol.
- 7.69 Gall aflonyddu ddigwydd i ddyfrgwn gan bobl sy'n cerdded eu cŵn ar hyd glannau'r afon, ac er bod hynny'n aml yn aflonyddu arnynt yn y tymor byr yn unig, gall dyfrgwn gael eu heffeithio gan gŵn sy'n gadael eu harogl. Yn arbennig gall gael effaith ar sesiwn bridio'r dyfrgwn. Mae hyn yn debygol o effeithio'n arbennig ar ACA Teifi lle y ceir 4 Canolfan Gwasanaethau Trefol (5 o bosibl gan gynnwys Castellnewydd Emlyn) ar hyd yr afon, a hefyd aneddiadau eraill.
- 7.70 Mae aflonyddu o gerbydau hefyd yn debygol o effeithio ar AGA Elenydd-Mallean oherwydd gall achosi i adar sy'n nythu ar y ddaear i adael eu nyth, gan naill ai gadael y cywion i newynu neu roi cyfle i ysglyfaethwr ymosod arnynt.
- 7.71 Gall gweithgareddau hamdden ar ddŵr, gan gynnwys canŵio, cychod modur, sgwba-blymio a snorcelu gael effaith aflonyddu ar sawl nodwedd wahanol gan gynnwys y dolffin trwynbwl, y llamhidydd, yr eog a physgod eraill a gŵydd dalcenwyn yr Ynys Las oherwydd presenoldeb a sŵn. Gall gweithgareddau hamdden ar ddŵr hefyd achosi problemau corddi gwaddod a all gotio mycroffytâu ac wyau pysgod, gan flocio ffotosynthesis ac achosi mygu. Gall hefyd gorddi llygrwyr sydd wedi bod yn segur ar wely'r afon. Bydd hyn yn cael effaith arbennig ar afon Teifi, Bae Ceredigion a Phen Llŷn a'r Sarnau, er y gall y CDLI gynyddu hyn ar afon Gwy ac afon Tywi hefyd.
- 7.72 Gall coed ifanc, wyau pysgod a broffytâu gael eu sathru trwy ganŵio, nofio a gweithgareddau hamdden ar ddŵr eraill, cerdded a cherbydau modur.
- 7.73 Gall erydu ddigwydd ar rai safleoedd trwy adeiladu traciau, gyrru oddi ar y ffordd, cerdded, manau mynediad a gadael ar gyfer gweithgareddau hamdden ar ddŵr a'r ôl llong a grëir gan gychod modur. Mae safleoedd ym Mynyddoedd Cambria yn cael eu heffeithio'n arbennig gan yrru oddi ar y ffordd anghyfreithlon, gan gynnwys beicio modur. Mae safleoedd eraill gan

- gynnwys Rhos Llawr Cwrt, Rhos Talglas ac afon Teifi yn cael eu heffeithio hefyd. Gallai cynnydd mewn tai a'r economi gynyddu effaith erydu naill ai trwy greu traciau newydd neu bwysau cynyddol ar draciau sy'n bod.
- 7.74 Gall cynnydd mewn adeiladu traciau a'r defnydd o draciau gynyddu aflonyddu i bridd rhai safleoedd hefyd. Ar raddfa fach, nid yw hyn yn hanfodol ar gyfer deinameg y boblogaeth, fodd bynnag, bydd llawer o aflonyddu yn effeithio ar allu coed ifanc i dyfu mewn hen goedwigoedd derw digoes, er enghraifft.
- 7.75 Y cynlluniau neu'r prosiectau a all gynyddu gweithgareddau hamdden yw'r Cynlluniau Lleoedd newydd ac eraill megis y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (2018). Gallai'r cynigion drafft ar gyfer Amddiffynfeydd Môr Aberaeron gael effaith ar ACA Gorllewin Cymru Forol, sy'n ACA newydd, os yw'n cynnwys gathiau harbwr a marina.
- 7.76 Dylai polisïau yn TAN 5 a'r TAN 16 sydd newydd ei ddiwygio a Pholisïau'r CDLI atal effaith niweidiol arwyddocaol rhag deillio o gynigion ar gyfer traciau newydd, llwybrau a mynediad a hefyd unrhyw ddatblygiadau a fydd yn creu cynnydd mawr yn nifer yr ymwelwyr.
- 7.77 Fodd bynnag, efallai na fydd yn ystyried yr effeithiau cronus sy'n deillio o gynydd cyffredinol yn y boblogaeth ger y safleoedd. Felly, bydd rhaid cynnwys mesurau lliniaru o fewn y polisïau hyn. Er enghraifft, bydd rhaid i ddatblygiadau sy'n effeithio ar ddarn o afon Teifi sy'n bwysig i'r dyfrgwn ddarparu mesurau ychwanegol i sicrhau nad yw'r rhai sy'n cerdded eu cŵn yn cael unrhyw effaith arwyddocaol. Gallai hyn gynnwys ffensio ardal ddigonol er mwyn osgoi aflonyddu neu ddarparu gwaliau artiffisial mewn hafanau diogel. Yn ogystal, bydd rhaid i ddatblygiadau a allai achosi cynnydd mewn gweithgareddau hamdden ar ddŵr hyrwyddo codau ymddygiad oherwydd yn aml iawn nid y cynnydd yn y niferoedd ond yn hytrach y cynnydd mewn gweithgareddau heb eu rheoleiddio sy'n cael yr effaith fwyaf. Gallai datblygiad â chysylltiad uniongyrchol orfodi system docynnau i gyfyngu niferoedd a gellid ei gyfyngu i amserau y tu allan i'r

tymor bridio. Gallai hyn gael ei estyn hefyd i fathau eraill o weithgareddau hamdden megis cystadlaethau gyrru oddi ar y ffordd. Yn ogystal, gallai pwyntiau mynediad concriid gael eu darparu ar gyfer canwywyr er mwyn atal erydu'r glannau mewn mannau priodol, a gellid gwneud cyfraniadau tuag at gynnal a chadw llwybrau a thraciau er mwyn ceisio rhwystro pobl rhag mynd oddi ar draciau oherwydd na ellir mynd hyd-ddynt.

- 7.78 Hyd yn oed gyda'r mesurau lliniaru hyn, mae'n bosib nad oes modd bod yn sicr mewn rhai safleoedd na fydd y CDLI yn cael effaith negyddol arwyddocaol effeithiau cronnus, gan arwain at yr angen am Asesiad Priodol. Pan gaiff polisïau penodol y CDLI Adnau eu hasesu bydd hyn yn gliriach.

Ystyriaethau eraill

- 7.79 Oherwydd mai dim ond darn mor fyr o gyfanswm hyd yr afon yng Ngheredigion sydd â chytundebau mynediad ar gyfer canwywyr, mae mwy o bwysau ar y safleoedd lle y ceir cytundebau yn afon Teifi. Yn ogystal, mae'n debyg bod canwïo yn digwydd y tu allan i'r ardaloedd cytunedig hyn ac felly nid yw'n cael ei reoli'n briodol. Mae angen gwneud mwy i ganfod yr ardaloedd lle y gellir dod i gytundeb er mwyn gwasgaru'r pwysau hyn, fodd bynnag mae hyn y tu allan i gylch gorchwyl y CDLI a rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ei ystyried, yn ogystal â thirfeddianwyr. At hynny, mae canwywyr yn tueddu i fynd dramor i ganwïo/caiocio trwy afonydd ac felly'n cynyddu'r posibilrwydd o drosglwyddo *Gyrodactylus salaries*, clefyd sy'n effeithio ar bysgod, yn enwedig yr eog (Llywodraeth Cymru, n.d). Gallai mynediad am ddim hefyd olygu ei bod hi'n fwy anodd i reoli hyn a throsglwyddo'r pla cimwch yr afon (sy'n effeithio ar ACA afon Gwy), felly rhaid cael cynlluniau rheoli yn eu lle er mwyn i hyn weithio.

Materion ac argymhellion pellach

- 7.80 Ceir rhai materion a ddisgrifir uchod a ddylai gael eu datrys gan y polisïau yn TAN 5. Fodd bynnag, mae'n bosib nad yw'r prosiectau posibl a restrir yn y Rheoliadau Cynefinoedd yn unig fod mor gynhwysfawr ag y bwriadwyd yn

wreiddiol gan Gyfarwydddeb Cynefinoedd y CE (Tyldesley & Associates, 2008). Yn ogystal, gall fod rhai datblygiadau lle yr ystyrir nad oes angen cael Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ond mae'n bosib na chafodd llygredd aer ei ystyried. Er na ddylai hyn ddigwydd, argymhellir bod Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried a yw'n bosibl, naill ai o fewn Canllawiau Cynllunio Atodol neu mewn polisi, i dynnu sylw at y prif fygythiadau i'r safleoedd Ewropeaidd yng Ngheredigion a'r hyn i fod yn ymwybodol ohono wrth gynllunio prosiect. Gallai hyn fod yn ffordd o gynyddu ymwybyddiaeth o ddatblygiadau a allai gael effeithiau, hyd yn oed os ydynt bellter i ffwrdd. Fodd bynnag, mae angen ystyried yr opsiwn hwn ymhellach.

- 7.81 Mae posibilrwydd y gallai CDLIau yr awdurdodau lleol cyfagos, yn ogystal â chynlluniau neu brosiectau eraill, weithio mewn cyfuniad ag effeithiau CDLI2 Ceredigion i'w gwneud yn arwyddocaol. O fewn yr adroddiad sgrinio hwn, cafodd effeithiau mewn cyfuniad eu hystyried o Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig Eryri 2016-2031 (2019), Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006 – 2021 (2014) a Chynllun Datblygu Lleol Powys 2011-2026 (2018). Fodd bynnag, ceir posibilrwydd o hyd ar gyfer effeithiau mewn cyfuniad gyda CDLIau diwygiedig Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adnau Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 2015 – 2031 (2018 yn aros i'w archwilio) ac Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Sir Benfro (2017). Pan fydd wedi'i fabwysiadu, bydd angen asesu pa mor debygol y bydd effeithiau mewn cyfuniad yn digwydd.
- 7.82 Mater arall i'w ystyried yw'r diffyg gwybodaeth mewn rhai ardaloedd. Ni chadarnhawyd eto beth sy'n achosi llwythi uwch o lwythi critigol nitrogen maethol ac asideiddio, ac a yw hynny i'w briodoli'n rhannol i brosesau sydd y tu allan i'r sir, rhai ohonynt gryn bellter i ffwrdd. Yn ogystal, oherwydd yr offer presennol yn safleoedd WWT a STW DC/WW, ni allant fonitro'r capasiti sy'n weddill mewn safle, ond maent yn ymwybodol pryd y bydd y safle wedi cyrraedd ei gapasiti. Er y gwyddys effeithiau gweithgareddau hamdden ar dir ac ar dŵr, ni ellir fod yn sicr pa effaith y bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn ei chael, felly mae'n bosib y bydd angen ystyried hyn ymhellach.

Effaith Strategaeth a Ffefrir y CDLI, Mesurau Lliniaru a chynlluniau/prosiectau eraill

- 7.83 Caiff effaith y Strategaeth a Ffefrir, Polisiâu LU a DM ynghyd ag effeithiau mewn cyfuniad cynlluniau a phrosiectau eraill eu hasesu yn y cam nesaf. Bydd mesurau lliniaru pellach yn cael eu hawgrymu fel y bo'n briodol.

8. Casgliadau

- 8.1 Mae proses sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi tynnu sylw at y posibilrwydd y bydd CDLI Ceredigion yn cael effaith negyddol sylweddol ar un neu ragor o safleoedd Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill. Er mwyn sicrhau nad yw CDLI Ceredigion yn cael effaith negyddol arwyddocaol, mae mesurau lliniaru wedi cael eu hargymell i'w cynnwys mewn polisiâu a'u hailasesu ar y cam adneuo. Nid yw hon yn rhestr gyflawn a gellir ychwanegu ati wrth i bolisiâu ddatblygu a thrwy drafodaethau â chyrrff perthnasol allweddol.
- 8.2 Yn arbennig, mae angen i bolisiâu leddfu yn erbyn effaith datblygu ar argaeledd dŵr, ansawdd aer, ansawdd dŵr, hawlio tir a cholli strwythur tirwedd, gweithgareddau hamdden a newid hinsawdd. Ar hyn o bryd, mae Polisiâu Strategol y CDLI yn cymryd camau cadarnhaol i leihau effaith datblygu ar y materion hyn. Bydd rhaid gweld y polisiâu DM a LU terfynol ar gyfer y Cynllun Adnau cyn y gellir penderfynu a fydd angen cael Asesiad Priodol neu beidio, fodd bynnag, mae'n debygol y gall y rhan fwyaf o faterion gael eu datrys yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn llunio geiriad terfynol y polisiâu.
- 8.3 Un mater arbennig na fydd efallai mor hawdd i'w ddatrys yw effaith y cynllun ar asideiddio ac ewtroffigedd safleoedd agored i niwed yn bennaf trwy gynnydd mewn llygredd aer. Mae hyn oherwydd, fel y trafodwyd uchod, bod nifer o nodweddion dynodedig safleoedd Ewropeaidd wedi cyrraedd eu llwythi critigol ar gyfer asideiddio a nitrogen maethol. Mae angen cael rhagor o wybodaeth am ffynhonnell y llygredd hwn a bydd angen cael trafodaethau pellach â Chyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau

perthnasol eraill ynghylch y ffordd ymlaen ar y mater hwn. Mae argymhellion wedi cael eu gwneud yn yr adroddiad hwn i gynnwys mesurau lliniaru mewn polisïau ansawdd aer er mwyn lleihau ein heffeithiau gymaint â phosibl. Fodd bynnag, nid yw hon yn rhestr gyflawn a chaiff ei hystyried ymhellach wrth i'r Cynllun gael ei ddatblygu ar ôl y cyfnod ymgynghori ar y Strategaeth a Ffebrir trwyddo i'r cam adneuo.

- 8.4 Yn ogystal, mae'n bosib y bydd angen ystyried ymhellach effaith gronnu gweithgareddau hamdden cynyddol ar rai o'r safleoedd hyn, os na ellir fod yn sicr na fydd y CDLI Adnau yn cael effaith negyddol arwyddocaol arnynt.
- 8.5 Mae'r cyfle i gofleidio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2018 a ffocws Adran 6 ar wella'r amgylchedd wedi bod yn flaenoriaeth yn yr adolygiad o'r cynlluniau a'r polisïau ac mae'n cyfrannu at leihau'r effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd.
- 8.6 Dylai'r angen i roi sylw i achosion uniongyrchol ac anuniongyrchol newid hinsawdd a chyfrannu at a hwyluso lleihau effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd (fel mewn mannau eraill) fod yn brif ystyriaeth yn y broses barhaus o ddatblygu polisïau'r CDLI.

Cyfeiriadau

AEA (2007) Llygredd Aer yng Nghymru: 2007. Adroddiad Fforwm Ansawdd Aer Cymru

Gwefan System Gwybodaeth Llygredd Aer (APIS) www.apis.ac.uk/home.html

Anon (1971) Convention on Wetlands of International Importance Ramsar, Iran Convention

Anon (2003) Cynllun Gweithredu Ardal Twf Twristiaeth Bro Ddyfi 2002-2004/8

Barrios, L & Rodriguez, A. (2004) Behavioural and Environment Correlated of Soaring-Bird Mortality at On-Shore Wind Turbines. Journal of Applied Ecology. V41.pp72-81

Grŵp Arfordir Bae Ceredigion (2004) Cynllun Rheoli Traethlin Bae Ceredigion

Cyngor Sir Gaerfyrddin (2014) Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006 – 2021

Gwefan y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH) <http://critloads.ceh.ac.uk/maps.htm>

Cyngor Sir Ceredigion (2002) Cynllun Rheoli Aber Teifi

Cyngor Sir Ceredigion (2002) Strategaeth Rheoli Gwastraff Ceredigion

Cyngor Sir Ceredigion (2013) Ceredigion 2020 (C2020) – Strategaeth Gymunedol Ceredigion

Cyngor Sir Ceredigion (2008a) Rhaglen Mynediad Arfordirol: Bro Ddyfi – Cynigion Datblygu Llwybr yr Arfordir.

Cyngor Sir Ceredigion (2018) Cynllun Gwella Hawliau Tramwy: 2018 – 2028

Cyngor Sir Ceredigion (n.d.) Strategaeth Newid Hinsawdd Ceredigion ac Amddiffyn Arfordirol y Borth

Cyngor Sir Ceredigion (2013) Cynllun Rheoli Cyrchfan Ceredigion 2012/2020.

Cyngor Sir Ceredigion (2014) Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Ceredigion

Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys (2015) Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015 – 2020

Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Sir Powys (2015) TraCC Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015

Cyngor Sir Ceredigion (2017) Cynllun Corfforaethol Ceredigion 2017 – 2022

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (2018) Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018 – 2023

Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys (2018) Cynllun Adfywio Rhanbarthol Canolbarth Cymru 2018 – 2033

Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Orllewin a Gogledd Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Cyngor Sir Penfro, Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a Dŵr Cymru Welsh Water, gyda chymorth gan Raglen LIFE-Nature y Comisiwn Ewropeaidd (2008) Cynllun Rheoli Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Ceredigion

Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol&c.) (1994)

Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2006) Cynllunio ar gyfer Gwarchod Safleoedd Ewropeaidd: Asesiad Priodol.

Dodd A.M., Cleary B.E., Dawkins J.S., Byron H.J., Palframan L.J. and Williams G.M. (2007) The Appropriate Assessment of Spatial Plans in England: A Guide To Why, When And How To Do It. Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)

Devon Wildlife Trust (2005) Devon Biodiversity Action Plan for the Marsh Fritillary

Dŵr Cymru Welsh Water (2019) Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Terfynol

Cyfarwyddeb y CE (96/61/EC) yn ymwneud â mesurau atal a rheoli llygredd integredig (Cyfarwyddeb IPPC)

Cyfarwyddeb EEC (1979/409/EEC) ar Warchod Adar Gwyllt (y Gyfarwyddeb Adar)

Cyfarwyddeb EEC (1992/43/EEC) Gwarchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)

Asiantaeth yr Amgylchedd (2001) Adnoddau Dŵr ar gyfer y Dyfodol: Strategaeth Adnoddau Dŵr ar gyfer Cymru a Lloegr: Crynodeb o'r Strategaeth yng Nghymru

Asiantaeth yr Amgylchedd (2004) Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Teifi.

Asiantaeth yr Amgylchedd (2008a) Strategaeth Mwyngloddiau Metel ar gyfer Cymru

Llys Cyfiawnder Ewrop (2018) Achos C-323/17 Cais am ddyfarniad cychwynnol, People Over Wind a Peter Sweetman v Coillte Teoranta, 12 Ebrill 2018

Cyfarwyddeb Ewropeaidd (2000/60/E) Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD)

Cyfarwyddeb Ewropeaidd (2001/42/EC) Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol

Cyfarwyddeb Ewropeaidd (92/43/EEC) ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwyllt (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd)

exeGesIS SDM Ltd (2008) Prosiect Peilot Cerbydau Hamdden Mynyddoedd Cambria: Adroddiad

Llywodraeth Ei Mawrhydi (2004) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)

Hood, A & Potter, L (2008) Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi: Cyfarwyddeb Cynefinoedd: Adolygiad o Ganiatadau – Cam 4 – Cynllun Gweithredu Safle. Asiantaeth yr Amgylchedd

Hyder Consulting (2007) Cynllun Gweithredu Bae Ceredigion: Adroddiad Terfynol. Llywodraeth Cynulliad Cymru: AdroddiadNE02602/RT 1-02

Inglis, G and Gust, N (2003) Potential Indirect Effects Of Shellfish Culture On The Reproductive Success Of Benthic Predators. Journal of Applied Ecology. Vol 40. pp1077-1089

Athrofa Astudiaethau Gwledig, Prifysgol Cymru, Aberystwyth (2002) Ardal Twf Twristiaeth Ceredigion Cynllun Gweithredu. Cyngor Sir Ceredigion, Partneriaeth Canolbarth Cymru a Bwrdd Croeso Cymru.

Jacobs, J.E. (2007) Astudiaeth Anheddu Canol Cymru: Cam 2 Adroddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gwefan Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) www.jncc.gov.uk

Lucas, M.D, Janss, G.F.E. and Ferrer, M. (2004) The Effects Of A Wind Farm On Birds In A Migration Point: The Strait Of Gibraltar. Biodiversity and Conservation V13. pp395-407

Cyfoeth Naturiol Cymru (n.d.) LANDMAP www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru (parhau) Cynlluniau Rheoli Craidd ar gyfer ACAau/AGAau:
Afon Teifi / River Teifi
Bae Ceredigion / Cardigan Bay
Coed Cwm Einion

Coedydd a Cheunant Rheidol/ Rheidol Woods & Gorge
Cors Caron
Cors Fochno ac Aber Dyfi / Dyfi Estuary
Cwm Doethie – Mynydd Mallaen
Elenydd – Mallaen
Grogwynion
Pen Llŷn a'r Sarnau/ Llyn Peninsular and the Sarnau
Rhos Llawr Cwrt
Rhos Talglas
Afon Tywi / River Towy
Afon Gwy / River Wye
Gorllewin Cymru Forol / West Wales Marine

Cyfoeth Naturiol Cymru (2015) Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru 2015-2021

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (2008) Cynllun Datblygu Lleol (dyddiad diwedd 2021). Strategaeth a Ffefrir (Dogfennau Cynllun Datblygu Lleol Cyn-Adneuo)

Cyngor Sir Powys (2018) Cynllun Datblygu Lleol 2011- 2026.

Reynolds, D (n.d) Identifying Opportunities and Requirements for Enhanced Inland Tourism in Central Wales. *Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru*

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2019) Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031

Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006 – 2021 (2014) a Chynllun Datblygu Lleol Powys 2011-2026 (2018). Fodd bynnag, ceir posibilrwydd o hyd ar gyfer effeithiau mewn cyfuniad gyda CDLIau diwygiedig Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adnau Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 2015 – 2031 (2018 yn aros i'w archwilio) ac Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Sir Benfro (2017).

Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol&c.) (Diwygiedig) (Cymru a Lloegr) (2007)

Tyldesley, D & Associates (2008) Asesu Prosiectau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Cymwys. Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Tyldesley, D and Associates, a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) Cyfarwyddyd Drafft. Asesu Cynlluniau Datblygu yng Nghymru o dan Ddarpariaethau'r Rheoliadau Cynefinoedd. Atodiad Drafft i Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio.

Prifysgol Brighton (2008) Cynllun Strategol Chwaraeon a Hamdden Dyfrol yng Nghymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) CDLI Cymru: Cynllunio Eich Cymuned: Canllaw i Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLIau)

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Polisi Cynllunio Cymru: Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005a) Ynni Cymru: Trywydd ar gyfer Ynni Glân Isel mewn Carbon a mwy Cystadleuol yng Nghymru: Dogfen Ymgynghori.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005b) Polisi Cynllunio Cymru: Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007a) Cynllun Gweithredu Micro-Gynhyrchu ar gyfer Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (n.d.) Cynllun Wrth Gefn ar gyfer Frwydro yn erbyn *Gyrodactylus Salaris* yng Nghymru

Llywodraeth Cymru (2008) Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru

Llywodraeth Cymru (2013) Partneriaeth ar gyfer Twf: strategaeth ar gyfer twristiaeth 2013-2020

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2013) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Llywodraeth Cymru (2015) Cynllun Adfer Natur Cymru

Llywodraeth Cymru (2016) Cynllun Gweithredu Teithio Llesol Cymru

Llywodraeth Cymru (2017) Cynllun Gweithredu Cymru ar Ffonau Symudol

Amrywiol (2012) Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2